**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 02.02.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Tegid John, Gordon Howie, Ceri Griffiths, Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), . James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Mark Lewis, Simon Turner, Giles Bentham, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 1 aelod o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom ag 2 yn yr ystafell ar gychwyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Mr. Owen Brown i'r cyfarfod er mwyn iddo gallu dangos y wefan newydd i'r Aelodau a mynd drwy y gwahanol adranau ohoni. Cafwyd wybod bod y wefan hon yn gweithio yn iawn a mae y Cyngor Cymuned derbyn hyn oedd yn berchen arni. Cafwyd wybod byddai creu e-byst Cyngor i'r Aelodau yn costio £60.48 a byddai y gost hyn yn codi yn flynyddol a cytunwyd gadael hyn am y tro. Gofynnwyd i Mr. Brown a fyddai yn fodlon edrych ar ol y wefan i'r Cyngor a datganodd y byddai yn meddwl am hyn ag hefyd cytunodd i gysylltu a Mr. Phil Price er mwyn gallu cyd weithio ag ef. Diolchwyd i Mr. Brown am ddod i'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Ms Paula Ireland, Mr. Dafi Owen a Mr. Trefor Davies o'r grwp rhandiroedd i'r cyfarfod er mwyn iddynt rhoid diweddariad i'r Cyngor o beth oedd yn digwydd ar y safle a sut i gario ymlaen i'r dyfodol a cyd weithio gyda'r Cyngor. Cafwyd wybod erbyn nawr bod ganddynt bwyllgor wedi ei sefydlu a bod Ms Paula Ireland yn Gadeirydd, Mrs Sue Davies yn Drysorydd a Mrs Gwen Owen yn Ysgrifennyddes ag hefyd eu bod wedi agor cyfrif banc. Cafwyd datganid gan Mr. Trefor Davies ar ran y grwp o beth oeddynt eisiau ei wneud ar y safle ag hefyd eu bod yn barod iawn i ddangos y rhandiroedd i Aelodau y Cyngor a dangos pa waith sydd angen ei gario allan yna. Cytunwyd eu bod yn cyfarfod ac Aelodau o'r Cyngor ar y safle ar y 14eg o'r mis hwn am 10.30 o'r gloch y bore a dod yn nol i'r Cyngor yn mis Mawrth gyda cynllun o'r costau. Diolchwyd iddynt am ddod i'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Ms Sioned Vaughan Williams i'r cyfarfod ag 'roedd Mr. Gethin Jones yn bresennol dros zoom er mwyn cael trafod safle gwell i chwarae pel droed a rygbi. Datganwyd bod astro turf 2G ar gael ar y funud yn Ysgol Ardudwy ond byddai cae astro turf 3G neu 4G yn well i'r plant. Yn gofyn a fyddai yn bosib cael cefnogaeth y Cyngor i hyn. Cytunwyd eu bod yn edrych i mewn i'r gwahanol grantiau oedd ar gael a dod yn nol at y Cyngor yn y dyfodol. Diolchwyd i'r ddau am ddod i'r cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Nid oedd gan Aelodau o'r cyhoedd gwestiynau I'w gofyn.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganodd y Cadeirydd ei fod yn falch o weld gwaith wedi cael ei gario allan yn yr ardal a diolchodd i'r Cyng. Reg Chapman a James Maxwell am ofalu am hyn. Datganodd ei fod yn atal y Rheolau Sefydlog ar Rheolau Ariannol er mwyn cael trafod y Rhybudd o Gynnig oedd y Cyng. Martin Hughes wedi ei wneud sef - Bod y Cyngor yn cymeradwyo taliad hyd at £1,700 i Harlech and Ardudwy Leisure Ltd (HAL) gyda'r bwriad o ariannu taliadau yswiriant misol am y cyfnod hyd at ac yn cynnwys diwedd Ebrill 2026. Cytunodd y Cyng. Christopher Braithwaite, Edwina Evans, Wendy Williams a Mark Lewis i hyn ag 'roedd y Cyng. Giles Bentham yn erbyn. Gafodd y Rheolau Sefydlog ar Rheolau Ariannol eu ail sefydlu.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr 12ed 2026 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eisiau nodi bod Mr. Chris Travis yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor dros zoom yn mis Rhagfyr ond datganwyd bod y rhaid oedd yn bresennol yn yr ystafell yn methu ei weld.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – adroddwyd ei bod wedi cael gwybod gan Swyddog o Gyngor Gwynedd bod difrod wedi cael ei wneud yn Parc Bron y Graig oherwydd bod plant yn chwarae o gwmpas yna gyda beiciau modur trydan ag hefyd wedi derbyn cwyn ynghylch ymddygiad gwrth cymdeithasol ag oherwydd hyn 'roeddwn wedi cysylltu gyda'r Heddlu lleol ynglyn ar mater hwn. 'Roeddwn wedi cael gwybod bod y toiledau cyhoeddus yn Harlech yn cael eu cau am gyfnod byr a 'roedd hyn wedi cychwyn ar y 30ain o fis diwethaf er mwyn cwblhau glanhad dwfn ohonynt ag 'roedd wedi anfon y wybodaeth hyn ymlaen i'r Aelodau i gyd ag wedi ei rhoid ar y gwefannau cymdeithasol. Bydd lein y Cambrian ar gau o ddydd Sadwrn y 14eg o'r mis hwn hyd at dydd Llun y 23ain er mwyn i waith adnewyddu'r trac rhwng Talybont a gorsaf Dyffryn Ardudwy a Llanaber a Bermo gael ei gario allan. Pan i lawr yn maes parcio Min y Don 'roedd wedi gweld bod gwaelod y peiriant talu ag arddangos wedi malu ag 'roedd wedi pasio hyn ymlaen i Swyddog yn Gyngor Gwynedd. Datganodd y Cyng. Hughes ei bod wedi derbyn yr adroddiad canlynol gan PCSO Ellliw Williams yn ystod y cyfarfod – Bod hi a Gill wedi bod yn cynnal gwiriadau/cyfrifiadau cyflymder yn Harlech, Llanbedr, Dyffryn a Thalybont dros y penwythnos. Bydd Bermo eto pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd y tro nesaf. Rydym wedi cyfuno'r holl gyflymderau, a bydd unrhyw geir a oedd yn mynd yn fwy na 26mya mewn ardal 20mya yn cael llythyr gan Dîm Gwylio Cyflymder Cymunedol gan eu hysbysu am eu cyflymder. Byddwn yn parhau i gynnal y gwiriadau hyn nawr ag yn y man yn Bermo a'r pentrefi cyfagos.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £61,123.59 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £34,672.66 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.
Cafwyd wybod bod yr Is-Bwyllgor Cyllid wedi cyfarfod a wedi bod yn trafod llythyr oedd wedi ei dderbyn gan y Cyng. Simon Turner ynglyn ag archebu mwy o focsys trydan er mwyn i'w gosod ar y polion trydan yn gwaelod y dref a bod 39 o rhain i gyd ar gost o £240 yr un yn gwneud cyfanswm o £9,360 a byddai yn bosib trefnu bod y gwaith hyn yn cael ei gario allan cyn diwedd y flwyddyn ariannol presennol. 'Roedd yr Is-Bwyllgor Ariannol wedi penderfynnu bod y mater hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod llawn y Cyngor heno ag ar ol trafodaeth 'roedd pawb a oedd yn bresennol o blaid i hyn gael ei wneud. 'Roedd y Cyng. Turner wedi derbyn pris o £3,594.02 i osod goleuadau ar y polyn dan sylw a datganodd y byddai yn bosib iddo godi y swm hyn o arian ei hun.

**HAL - CIC**

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglyn ar sefyllfa diweddaraf i wneud gyda HAL – eu bod yn dal i weithio gyda Visit Wales a cytunwyd i wneud ymholiadau gyda cwmni yswiriant y Cyngor Cymuned i ofyn beth fyddai y gost i drosglwyddo HAL i polisi yswiriant y Cyngor Cymuned.

**Llwybr Natur Bron y Graig**

Datganodd y Cyng. James Maxwell bod ddim llawer i'w drafod ynglyn ar uchod a cytunwyd i adael y mater tan cyfarfod nesa y Cyngor.

**Tir Penygraig**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn copi o'r dogfennau er mwyn cwblhau pryniant tir Penygraig er mwyn galluogi eu arwyddo drwy Doc E ag ei bod wedi anfon rhain ymlaen i'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. Reg Chapman.

Cafwyd wybod bod y ddogfen hon wedi cael ei arwyddo a bod y Cyng. Reg Chapman wedi ei anfon yn nol i'r Cyfreithiwr. Datganodd y Cyng. James Maxwell ei fod yn cyfarfod a Kompas Housing ar y 23ain o'r mis hwn er mwyn trafod adeiladu tai ar ochor y Coleg o'r tir hwn a byddai hyn wedyn yn dod i mewn i Gynllun Datblygu Lleol Eryri.

**Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin**

Adroddodd y Glerc ei bod wedi derbyn y diweddariad canlynol gan Mr. Joe Patton ynghylch y gwaith i'w gyflawni yn y Gardd Gymunedol Blodau Gwyllt – mae fy nghais grant â chyfrifiad cost tua £1,500 wedi cael ei gymeradwyo gan banel CIST sy'n gyfrifol am ddosbarthu Cyllid Eglwysi Cymru i gefnogi cymunedau lleol. Mae hyn yn gam arwyddocaol ymlaen i'r rheini sy'n gwirfoddoli eu hamser a'u hymdrech i gefnogi gardd gymunedol Harlech sydd wedi ennill Baner Werdd.

Bydd cyllid CIST bellach yn galluogi **cam cyntaf Prosiect Helygfa Synhwyraidd**, gan ein galluogi i archebu'r gwelyau codi a'r cyfuniad pridd/compost di-bêd i lenwi'r gwelyau codi. Bydd y rhain wedyn yn cael eu plannu gyda hathrofiadau synhwyraidd a detholiad o blanhigion sydd ddim yn wenwynig wedi eu dewis am eu lliwiau, gweadau a arogleuon, yn dilyn argymhellion gan y sefydliad Gerddi Synhwyraidd. Bydd y nwyddau hyn yn cael eu harchebu cyn gynted ag y rhoddir yr arian. Bydd y gosodiad yn dechrau ar ôl Dydd Gŵyl Dewi, unwaith y bydd y cenin pedr wedi darfod.

Mae'r **ail gam** yn gysylltiedig â'm cais am grant i Gymdeithas Garddwriaeth Genedlaethol, ac rwy'n disgwyl y canlyniad ym mis Chwefror. Os bydd yn llwyddiannus, bydd hyn yn ariannu bwrdd picnic hygyrch i gadeiriau olwyn, nodwedd ddŵr pŵer solar, caneuon gwynt a ffan tywydd - wedi'u cynllunio i wneud y gofod yn fwy croesawgar ac yn gynhwysol.

Mae'r **trydydd cam** yn cynnwys cais i Gronfa Ddirymu Niwclear. Bydd hyn yn cefnogi comisiynu artist i ddarlunio'r blodau wedi blodeuo, gyda'r gwaith celf yn rhan o fwrdd gwybodaeth arddull lectern dwyieithog. Bydd hyn yn helpu ymwelwyr i adnabod y planhigfeydd, deall eu diben, a theimlo eu bod yn cael eu gwahodd i fwynhau a bod balchder yn y gofod cymunedol newydd hwn.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael e-bost gan Swyddog o'r Play Inspection Company yn datgan eu bod newydd orffen cario allan archwiliad o'r ddau barc chwarae a bod yr offer pren yn cae chwarae Llyn y Felin yn beryg ag eu bod wedi gosod tap coch o'i amgylch ag yn gofyn i'r Cyngor weithredu ar unwaith yw dynnu i lawr. Cytunwyd cysylltu a chwmni Soverign Play a gofyn eu barn ynglyn ar offer hwn a beth fyddai y ffordd orau i symud ymlaen.

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad a gwahanol gwmniau ynglyn ag archebu gwahanol offer i gae chwarae Brenin Sior V a dangosodd y gwahanol eitemau oedd ar gael i'r Aelodau. Cytunwyd bod yr Is-Bwyllgor Ardal Gwyrdd yn cyfarfod i edrych yn fwy manwl ar y gwahanol offer sydd wedi cael ei gynnig a dod ar mater yn nol ger bron y Cyngor.

Cytunwyd bod angen cysylltu gyda J. B. Pest Control i ofyn iddo ddod i waredu tyrchod yn y ddau barc chwarae.

**Cyrsiau Hyfforddiant I Aelodau**

Oherwydd bod ddim amser i drafod y mater uchod yn y cyfarfod heno i'w gynnwys ar agenda mis nesa.

**Is-Bwyllgorau y Cyngor**

Oherwydd bod ddim amser i drafod y mater uchod yn y cyfarfod heno i'w gynnwys ar agenda mis nesa.

**Cynllun Datblygu LLeol Eryri**

Oherwydd bod ddim amser i drafod y mater uchod yn y cyfarfod heno i'w gynnwys ar agenda mis nesa.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Newid defnydd o Ddosbarth Defnydd C5 (Cartref gwyliau) i Ddosbarth Defnydd C6 (Llety gwyliau) Bryn-y-Coed, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/680)**

Ddim sylwadau I'w wneud ar y cais hwn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £25,068.04 yn y cyfrif rhedegol a £115,525.88 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**
Guthrie Jones & Jones - £2,156.14 – cwblhau pryniant tir Penygraig
Kudos Fencing Ltd - £533.00 - 2 wely blodau i'r ardd gymunedol
Dwr Cymru - £34.13 - tap dwr rhandiroedd
Dwr Cymru £452.43 - dwr toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa
Gardencraft £950.00 - 5 potiau i ddal blodau
Mr. Lee Warwick £372.10 - glanhau y toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa
Dingle Nurseries £1,162.62 - archebu planhigion i'w plannu o amgylch y dref

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,700.00

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Edwina Evans a wnaeth y Cyng. Wendy Williams gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Cyngor Gwynedd - £5,200.00 – grant cynllun Gwynedd Ni.
Pritchard a Griffiths - £1,960.50 – claddu y diweddar Mr. Peter Jones
Cyngor Gwynedd - £808.32 – grant cist Gwynedd i'r gardd gymunedol blodau gwyllt (Cronfa Eglwys Gymraeg)

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu
Blachere Illuminations - £527.10 - goleuadau nadolig

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod yn amser gofyn i Ms Luned Fon Jones o Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd a fyddai yn fodlon gweithredu fel Archwiliwr Mewnol y Cyngor eto eleni. Cytunwyd bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn anfon y llythyr hwn yn gofyn iddynt weithredu ar ein rhan eto eleni.

Cafodd ei drafod gan yr Aelodau y byddai gyfradd fesul awr ar gyfer cyflog y Clerc yn cael ei adolygu yn unol â chanllawiau'r SLCC. **Ni gymerodd y Clerc rhan yn y drafodaeth hon.**

**GOHEBIAETH**
**Un Llais Cymru**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod gyda chopi o gofnodion cyfarfod pwyllgor Ardal Meirionnydd a gafodd ei gynnal ary 14eg o fis diwethaf. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**Un Llais Cymru**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod gyda dyddiadau hyfforddiant Ionawr i Mawrth. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysebu y Cyngor bod gwaith o atgyweirio canllaw pont ag amnewid slab ar stepen yn mynd i gael ei gario allan ar llwybr cyhoeddus rhif 28 ger Bron Castell, Ffordd Newydd a bod y tim tacluso ardal ni yn dod i'r ardal rhwng y 9ed ar 13eg o'r mis hwn. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Bwrdeistrefol**
Wedi derbyn e-bost gan y Peiriannydd Cynorthwyol o'r Adran uchod yn datgan bod rhywun yn plannu coed a blodau yn Mharc Bron y Graig a bod hyn yn cael ei wneud heb eu caniatad ag yn gofyn i'r gwaith hyn gael ei stopio ar unwaith. Hefyd yn datgan ei fod wedi cael sgwrs ar Cyng. James Maxwell er mwyn ceisio trefnu cyfarfod ar y safle i drafod cynlluniau pellach.

**Patricia Elford**

Wedi derbyn  e-bost gan yr uchod yn datgan pryder unwaith yn rhagor ynglyn a coeden dderw sydd yn gwaelod ei gardd ag yn gofyn i'r Cyngor wneud rhywbeth amdano. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i'r Cadeirydd yn barod. Cytunwyd cysylltu a Luke O'Connor i ofyn iddo ddod i archwilio y goeden hon a datgan bod hyn yn fater brys.

**Lucy Freeman**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ar ran Sefydliad y Merched Harlech yn gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor i ddarparu pamphledi i hyrwyddo y Ffair Mai yn y Neuadd Goffa ar y 4ydd o Fai. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i Aelodau yr is-bwyllgor ariannol yn barod. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol yng nghyfarfod nesa y Cyngor.

**G & J Cole**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn a fyddai yn bosib i'r Cyngor gyfranu tuag at archebu mwy o pabi coch er mwyn eu gosod o amgylch yr ardal oherwydd bod rhai presennol wedi eu colli yn ystod y tywydd garw y llynedd. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol yng nghyfarfod nesa y Cyngor.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.....................................................**